TIRLUN

## NODIADAU ATHRAWON

# FFORWYR AC ALLDEITHIAU

Mae dysgwyr yn ystyried tri fforiwr a'u halldeithiau mwyaf nodedig: Henry Morton Stanley yn dod o hyd i Livingstone, Tori James - y Gymraes gyntaf i ddringo Everest a Scott a'i alldaith ar y Terra Nova. O astudio'r rhain, mae dysgwyr yn datblygu eu syniadau am yr offer, yr hyfforddiant, y medrau a'r doniau sydd eu hangen ar gyfer bod yn fforiwr da. Maent yn mynd ymlaen i ddatblygu cwrs cyfeiriannu ar gyfer dysgwyr iau ar dir yr ysgol ac yn ei dreialu. Mae dysgwyr yn ystyried yr alldeithiau yng Ngwobr Dug Caeredin cyn datblygu alldaith yn yr ardal leol. Maent yn treialu'r alldaith er mwyn ei gwella ac yn cynhyrchu cyflwyniad fideo digidol i'w ddangos i gynulleidfa o bobl sy'n ymwneud â Gwobrau Dug Caeredin, grwpiau cerdded/heicio lleol a grwpiau lleol eraill sy'n defnyddio'r awyr agored.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd Dysgu a Phrofiad a archwiliwyd:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Cyfrif Hwb (Office 365) neu https://sway.office.com/ (Saesneg yn unig).
Dulliau o recordio golygfeydd a synau, e.e. tabled, ffôn clyfar, papur a phensiliau, ac ati.
Offer mesur, e.e. pedomedr, tâp mesur hir ar gyfer chwaraeon.
Cwmpawd.
Papur sgwâr neu graff, os y bydd angen y rhain ar ddysgwyr i lunio map wrth raddfa.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH SY'N GWNEUD FFORIWR DA?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddwch chi'n edrych ar dri fforiwr ac alldaith y mae pob un wedi'i gwneud er mwyn ceisio penderfynu beth yw'r sgiliau a'r rhinweddau sydd ar fforiwr eu hangen.

### Sgriniau 3-4

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ddatblygu cwestiynau da i'w gofyn am y ddelwedd gan ddefnyddio grid Pwy-beth-pryd-ble-pam-sut. Yna, gallant ymuno â phâr arall o ddysgwyr i ystyried eu cwestiynau nhw a cheisio eu hateb.

### Sgrîn 5

Dangoswch y wybodaeth am Syr Henry Morton Stanley i'r dysgwyr.

Ganwyd H.M. Stanley yn Ninbych yn 1841. Ei enw genedigol oedd John Rowlands. Yn ystod ei oes, bu Stanley yn fforio mewn ardaloedd helaeth o ganol Affrica. Cafodd ei gomisiynu gan y New York Herald i chwilio am y cenhadwr a'r fforiwr Albanaidd, David Livingstone, a oedd wedi mynd ati i chwilio am darddiad yr afon Nîl ym 1866.

Roedd Stanley yn berson diddorol iawn. Mae'r wybodaeth ar y sgriniau'n disgrifio manylion syml am ei daith i ddod o hyd i Livingstone. Fodd bynnag, gallech ofyn i ddysgwyr ddarganfod mwy amdano ef a'i fywyd, sydd wedi'i groniclo'n dda yn Wicipedia, os y dymunwch wneud hynny. Er iddo gael ei eni yng Nghymru, fe wadodd ei etifeddiaeth Gymreig ac mae llawer o fanylion ar-lein ynghylch y rhesymau posibl am iddo wneud hyn, e.e. Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Institute of Welsh Affairs (Saesneg yn unig).

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen rhagor o wybodaeth am Stanley:

Parhaodd taith Stanley am 236 diwrnod trwy jyngl trwchus ac roedd dros 700 milltir o hyd. Yna, gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sawl milltir a gerddwyd bod dydd ar yr alldaith, ar gyfartaledd?
- Y cyflymder cerdded ar gyfartaledd yn y DU yw 3 milltir yr awr. Beth mae cyflymder teithio ar yr alldaith yn ei gyfleu ynghylch y tirwedd a'r amodau?
- Pa fathau o offer oedd gan y rhai oedd ar yr alldaith, yn eich barn chi? Pam?

Yna, lluniwch restr o'r offer oedd gan y rhai oedd ar yr alldaith, yn eich barn chi.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y ffaith fod y bobl oedd ar yr alldaith wedi croesi llawer o afonydd mawr. Yna, trafodwch y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut wnaeth y bobl oedd ar yr alldaith groesi afonydd?
- Pa offer arall oedd ganddyn nhw ar gyfer croesi afonydd, yn eich barn chi? Pam?

Yna, gofynnwch iddynt ychwanegu'r mathau hyn o offer at eu rhestr.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried yr offer y gellid eu defnyddio heddiw pe byddid yn ail-greu alldaith Stanley ym 1871. Gofynnwch iddyn nhw ddewis y tri pheth pwysicaf i'w cymryd ar yr alldaith a  byddwch yn barod i egluro eich rhesymau dros ddewis y rhain, i bobl eraill.

ffôn symudol, twceiod, cyllyll, mapiau, cwmpawd, rhaffau, pethau ymlid pryfed, gynnau, bwâu hir, dillad gwrth-ddŵr, sachau cysgu, tarpolin.

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl beth arall yr hoffent eu cymryd ar yr alldaith, ac unwaith eto, dylent fod yn barod i egluro eu rhesymu.

## Sgrîn 9

Yma, rydym yn cyflwyno Tori James. Tori oedd y Gymraes gyntaf i ddringo Mynydd Everest. Roedd hi'n 25 oed pan yn gwneud hynny, sy'n golygu mai hi oedd y ferch ieuengaf o Brydain i gwblhau'r esgyniad ar y pryd. Roedd Tori yn rhan o dîm o bedwar fu'n hyfforddi gyda'i gilydd am 18 mis, er mwyn paratoi ar gyfer ymdopi â'r amodau eithafol ar y ddringfa.

## Sgrîn 10

Dangoswch y fideo On Top of the World (tua 10 munud) (Saesneg yn unig) i'r dysgwyr a gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl y bu'n rhaid i Tori a'i thîm hyfforddi am 18 mis cyn yr alldaith?
- Pa rinweddau ffisegol corfforol sydd eu hangen ar gyfer dringo Everest? Pam?
- Mae salwch uchder yn cael ei drafod yn y fideo. Ar uchder, mae llai o ocsigen yn yr aer. Sut gallai hyn effeithio ar rywun? Pam?
- Pa rinweddau meddyliol sydd eu hangen ar gyfer alldaith o'r fath? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 11

Dangoswch y cyfweliad gyda Tori i'r dysgwyr; mae'n son am yr hyfforddiant a gyflawnodd cyn dringo Everest a'r lefelau ffitrwydd sydd eu hangen.

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y mathau o hyfforddiant sydd eu hangen ar gyfer dringo i gopa Everest:

- Hyfforddiant cardiofasgwlaidd
- Hyfforddiant cryfder a dygnwch
- Hyfforddiant uchder
- Hyfforddiant heicio (mewn rhew ac eira)
- Hyfforddiant dygnwch meddwl.

Neilltuwch un o'r mathau o hyfforddiant (uchod) i bob pâr o ddysgwyr, a gofynnwch iddynt ymchwilio ar y rhyngrwyd i ddarganfod mwy amdano. Yna, gofynnwch iddynt gynhyrchu cyflwyniad ar Sway i ddangos i eraill beth yn union yw'r hyfforddiant a pham ei fod yn bwysig.

## Sgrîn 13

Ar y sgrin hon, rhoddir manylion ynghylch sut i greu Sway.

- Mewngofnodwch i'ch cyfrif Hwb a chael mynediad i Office 365. Dewch o hyd i Sway a'i agor neu cliciwch yma i gael mynediad i Sway: Sway (Saesneg yn unig)
- Cliciwch Creu o'r Newydd (Create new).
- Bydd cerdyn Sway yn ymddangos; nawr ychwanegwch deitl i'ch Sway. Gallech chi ddefnyddio enw'r math o hyfforddiant yr ydych wedi ymchwilio iddo.
- Cliciwch ar y Ddelwedd Gefndir (Background image). Bydd Sway yn dechrau chwilio am ddelweddau sy'n gysylltiedig â'ch teitl. Bydd y rhain yn cael eu harddangos ar yr ochr dde. Cliciwch ar y categori sy'n addas i'ch teitl. Dewiswch ddelwedd a'i llusgo a'i gollwng ar eich cerdyn teitl. Gallwch chwilio am fideos yn yr un modd.
- Nawr cliciwch ar Chwarae (Play)… Bydd Sway yn defnyddio algorithmau sy'n seiliedig ar ddylunio graffeg i awgrymu'r ymddangosiad.
- Gallwch ymarfer newid y dyluniad graffeg.
- Cliciwch ar + i ychwanegu delweddau eraill yn ogystal â thestun, er mwyn cynnwys yr hyn rydych wedi'i ddarganfod am y math o hyfforddiant.
- Rhannwch eich Sway gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 14

Cyflwynwch wybodaeth i'r dysgwyr am alldaith Scott i Begwn y De, sef y Terra Nova (a enwyd ar ôl y llong a ddefnyddiwyd).

Ar y 15ed o Fehefin 1910, bu tyrfa fawr, gyffrous a swnllyd yn bloeddio wrth i long lwythog iawn adael Basn y Rhath yn nociau Caerdydd. Roedd yr SS Terra Nova yn cychwyn am y de, i Antarctica. Ar fwrdd y llong roedd y Capten Robert Falcon Scott ac aelodau ei Alldaith Antarctig Brydeinig, a oedd yn anelu at fod y cyntaf i gyrraedd Pegwn y De. Roedd Edgar Evans o Rosili ym Mhenrhyn Gŵyr yn rhan o dîm Scott. Roedd y daith yn Antarctica tua 1,800 o filltiroedd.

## Sgrîn 15

Dywedwch wrth y dysgwyr fod Scott yn gwybod ei fod mewn ras gyda Roald Amundsen, fforiwr o Norwy, a'i dîm. Yna, gofynnwch iddyn nhw wylio'r fideo am alldaith Scott (tua 5 munud). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y daeth Scott yn ail yn y ras i Begwn y De? Rhestrwch gynifer o resymau ag y gallwch o'r fideo.
- Sut roedd Scott yn teimlo pan ddaeth ei dîm yn ail, yn eich barn chi? Pam?
- Sut bu farw Scott a'i dîm? Beth ddigwyddodd i bob un ohonyn nhw?

Mae erthygl gynhwysfawr am y ras ar Wikipedia (Saesneg yn unig).

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 16

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried rhai o'r offer a ddefnyddiodd Scott a'i dîm a hefyd i edrych ar fraslun o fforiwr o'r cyfnod hwnnw. Rhestrir offer Scott fel a ganlyn: 13 sled, 2 sled modur, 10 merlen, 24 ci, dillad gwlân a chotwm, sgïau pren, gogls eira, pebyll, sachau cysgu gwlân. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallai rhywfaint o'r offer hwn fod yn broblem i Scott a'i dîm? Pam?

## Sgrîn 17

Rhowch ragor o fanylion i'r dysgwyr am Edgar Evans, aelod Cymreig a oedd yn un o'r pump olaf ar yr alldaith begynol.

Edgar Evans oedd y cyntaf o'r tîm i farw, a chredir fod ei dranc wedi'i gychwyn gan iddo syrthio nifer o weithiau. Yr un mwyaf difrifol oedd Chwefror 4ydd, 1912, pan blymiodd ef a Scott i lawr i hafn. O ganlyniad i'r gyfergyd ddifrifol a ddioddefodd yn y ddamwain hon, dirywiodd ei gyflwr yn raddol, a bu farw ar Chwefror 14eg, yn fuan ar ôl dioddef pwl o ddeliriwm. Roedd Evans hefyd wedi cuddio'r ffaith fod ganddo doriad drwg iawn ar ei law, rhag Scott. Fe ddioddefodd y toriad drwg hwn wrth weithio ar oseiliau sled, yn ystod y daith allan i Begwn y De.

## Sgrîn 18

Ar y sgrin hon, cynhwysir manylion am Edgar Evans, a ddisgrifiwyd gan Scott fel: "gweithiwr anhygoel; mae'n gyfrifol am bob sled, pob rhan o'r slediau, pabell, sachau cysgu, harneisiau, ac oherwydd na all rhywun ddwyn i gof un mynegiant o anfodlonrwydd ynghylch unrhyw un o'r eitemau hyn, dengys hyn mor amhrisiadwy y bu ei gyfraniad."

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rinweddau oedd gan Edgar Evans?
- Pa sgiliau oedd gan Edgar Evans? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut roedd y nodweddion a'r sgiliau hyn yn gwneud Edgar Evans yn fforiwr delfrydol?

## Sgrîn 19

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y sgiliau a'r rhinweddau sydd ar fforiwr eu hangen. Gofynnwch iddyn nhw feddwl yn ôl drwy'r dasg, ac yna i gwblhau'r tabl i ddangos eu meddyliau.

Mae yna ffenestri naid ynghylch sgiliau a rhinweddau...

**sgiliau = y gallu i wneud rhywbeth yn dda neu arbenigedd, e.e. cynllunio, trefnu, gwaith coed, coginio, ysgrifennu, ac ati.**

**rhinweddau = ansawdd, cymeriad, neu nodwedd sydd gan rywun, e.e. gweithio'n galed neu'n ddygn neu'n benderfynol neu'n fywiog neu'n optimistaidd, ac ati.**

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 20

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar y dasg gyfan trwy gwblhau o leiaf un o'r isod ar gychwyn brawddeg, ac yna i rannu'r rhain gyda'r dosbarth.
Gallwch gychwyn eich brawddegau fel hyn:
Deallais yn well pan...; Y peth wnaeth fy helpu i heddiw oedd ...; Un peth a wnaethom heddiw a wnaeth i mi sylweddoli...; Er mwyn gwella, gallwn i...; Ar ôl darllen, dwi'n ...; Gallwn i ddefnyddio'r strategaeth hon pan...; Ar ôl siarad â...; Y tro nesaf, gallwn i...; Y peth mwyaf anodd i mi oedd ...; Un syniad/peth nad ydw i'n ei ddeall ydy....

TASG 2

# SUT GALLWN NI DDATBLYGU CWRS CYFEIRIANNU AR GYFER POBL ERAILL?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod am ddatblygu cwrs cyfeiriannu syml ar dir yr ysgol, ar gyfer dysgwyr iau.

## Sgrîn 3

Rhoddir cefndir y dasg ar y sgrin gyntaf:

Rydych chi'n mynd i ddatblygu alldaith ar gyfer dysgwyr iau yr ysgol. Bydd yr alldaith ar dir yr ysgol neu'r ardal leol. Bydd yr alldaith yn un ar gyfer cyfeiriannu, gan gynnwys pwyntiau rheoli a bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn map. Ym mhob pwynt rheoli, bydd cliw neu gyfarwyddiadau i gyfranogwyr er mwyn iddynt gyrraedd y pwynt rheoli nesaf. Hefyd, bydd llythyr i'w gasglu ym mhob pwynt rheoli.

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrîn er mwyn cwblhau'r gweithgaredd rhyngweithiol sy'n arddangos cwrs cyfeiriannu syml. Dylai hyn ddangos y math o gwrs y maent yn bwriadu ei greu.

## Sgriniau 5-6

Ar y sgrin hon, rhoddir gwybodaeth i ddysgwyr am y disgwyliadau.

Bydd eich athro/athrawes yn mynd â chi allan o amgylch yr ysgol neu'r ardal leol i weld lle gallech chi ddatblygu eich cwrs cyfeiriannu.

Y tu allan yn yr awyr agored, bydd angen i chi:

- gymryd ffotograffau, creu clipiau fideo neu sain neu frasluniau i ddangos meysydd y gallech eu defnyddio ar gyfer eich cwrs
- gwneud nodiadau ynghylch ym mhle y gellid gosod eich pwyntiau rheoli.

Yna, gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored i gynllunio ar gyfer eu cwrs cyfeiriannu.

## Sgriniau 7-8

Unwaith y byddant wedi dychwelyd yn ôl i mewn i adeilad yr ysgol (os oes angen gwneud hynny), mae angen i'r dysgwyr gynllunio sut i dynnu llun eu map. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sydd angen ei ddangos ar ein map? Pam?
- Sut gallwn ni lunio map wrth raddfa? Pryd ydyn ni wedi defnyddio map wrth raddfa o'r blaen? Sut olwg oedd arno?
- Pa raddfa fyddwn ni'n ei defnyddio? Pam?
- Sut gallwn ni ddefnyddio cyfeiriadau'r cwmpawd ar ein map? Pam y gallai cyfeiriadau'r cwmpawd fod yn ddefnyddiol?
- Pa fesuriadau sydd angen i ni eu cymryd? Pam?
- Sut ydyn ni'n mynd i gymryd mesuriadau? Pam ei wneud fel hyn?
- Sut gallwn ni rybuddio pobl am unrhyw risgiau neu faterion diogelwch ar y map?

Yna, gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored i gymryd y mesuriadau a nodi ble mae'r Gogledd, ar gyfer eu map.

## Sgrîn 9

Unwaith y bydd y dysgwyr wedi dychwelyd yn ôl i mewn i adeilad yr ysgol (os oes angen gwneud hynny), bydd angen i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i lunio eu map wrth raddfa. Os yw dysgwyr yn cael trafferth gyda graddfa, gallech chi roi papur sgwâr neu bapur graff iddyn nhw er mwyn eu cefnogi i lunio eu map. Atgoffwch nhw fod angen i fap da gynnwys:

- pob adeilad a nodwedd – gyda lliw a/neu symbolau i ddangos beth ydyn nhw
- allwedd i ddangos beth yw ystyr pob symbol
- graddfa
- ble mae'r Gogledd.

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr, yn eu grwpiau, i weithio ar y pwyntiau cychwyn a gorffen a'r pwyntiau rheoli. Dywedwch wrthyn nhw y dylid sicrhau fod llythyren yn cael ei darparu i'r cyfranogwyr yn mhob pwynt rheoli. O'u rhoi at ei gilydd, bydd y llythrennau hyn yn ffurfio anagram o air, e.e. byddai L, O, Y, S, G yn anagram o'r gair YSGOL. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae'r cwrs yn mynd i ddechrau a gorffen? Pam?
- Pa anagram ydyn ni'n mynd i'w ddefnyddio? Pam?
- Faint o bwyntiau rheoli ddylai fod gennym ni?
- Ble ddylai pob pwynt rheoli fod? Pam?
- Pa gliwiau rydyn ni'n mynd i'w darparu ar gyfer cyrraedd y pwynt rheoli nesaf neu ddiwedd y cwrs? Pam?
- Pa fathau o gliwiau rydyn ni am eu darparu, e.e. cyfeiriadau'r cwmpawd, nifer y camau, nifer y metrau, ac ati?

Hefyd, dywedwch wrthynt y bydd angen dangos unrhyw risgiau neu faterion diogelwch ar y map, ar gyfer y dysgwyr iau sy'n dilyn y cwrs.

## Sgriniau 11-12

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl am y pethau ymarferol ar gyfer y rhai sy'n dilyn y cwrs,  trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa offer fydd eu hangen ar y rhai sy'n cymryd rhan? Pam?
- Beth sydd angen i'r rhai sy'n cymryd rhan ei wybod cyn iddynt ddechrau dilyn y cwrs? Pam?
- Sut gallai'r tywydd effeithio ar eich cwrs? Sut y gallech chi leihau effeithiau'r tywydd ar y rhai sy'n cymryd rhan?
- Pa sgiliau a rhinweddau fydd eu hangen ar y rhai sy'n cymryd rhan? Pam?
- A fydd angen unrhyw hyfforddiant ar y rhai sy'n cymryd rhan, cyn iddynt ddilyn eich cwrs? Pam?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr greu unrhyw gliwiau sydd eu hangen a mynd allan i'r awyr agored i osod eu cwrs cyfeiriannu.

## Sgrîn 13

Gofynnwch i'r dysgwyr wahodd dysgwyr iau i roi cynnig ar eu cwrs cyfeiriannu. Dywedwch wrth y dysgwyr fod angen iddyn nhw eu harsylwi wrth iddyn nhw wneud y cwrs er mwyn gweld beth oedd yn anodd neu'n hawdd iddyn nhw. Hefyd, er mwyn nodi unrhyw offer a ddefnyddiwyd ganddynt ac unrhyw sgiliau a rhinweddau a ddangoswyd ganddynt.

Gwahoddwch y dysgwyr i siarad â'r rhai sy'n cymryd rhan ar ôl cwblhau'r cwrs, er mwyn canfod beth roedden nhw'n ei fwynhau neu ddim yn ei fwynhau cymaint. Hefyd, gofynnwch iddynt am unrhyw bethau y gellid eu cyflawni er mwyn gwella'r cwrs neu wneud y cliwiau ar gyfer eu cwrs yn gliriach. Yn olaf, gwahoddwch y dysgwyr i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i wella eu cwrs.

TASG 3

# SUT GALLWN NI DDATBLYGU ALLDAITH AR GYFER POBL ERAILL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw nawr yn defnyddio’r holl wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i sefydlu alldaith ar gyfer pobl eraill yn yr ardal. Fodd bynnag, yn gyntaf byddant yn edrych ar Wobr Dug Caeredin oherwydd bod rhan o’r wobr hon yn alldaith yn yr awyr agored.

## Sgriniau 3-4

Mae’r ddwy sgrin hyn yn rhoi gwybodaeth am Wobr Dug Caeredin.

Beth yw Gwobr Dug Caeredin (DofE) (Saesneg yn unig)?

Mae Gwobr Dug Caeredin( DofE) yn golygu llawer o bethau gwahanol i lawer o bobl, gan gefnogi cenedlaethau i ymlwybro drwy eu bywyd fel oedolyn yn llwyddiannus, ar sail profiadau hwyliog, cyfleoedd i roi cynnig ar weithgareddau newydd, ymweld â lleoedd newydd a phrofi cyfeillgarwch gwych.

Gall pobl ifanc 14–24 oed wneud rhaglen Dug Caeredin ar un o dair lefel sydd, o’i chwblhau’n llwyddiannus, yn arwain at Wobr Dug Caeredin Efydd, Arian neu Aur.

Mae pedair adran i’w cwblhau ar lefel Efydd ac Arian a phump ar lefel Aur. Maent yn cynnwys helpu o fewn y gymuned/amgylchedd, dod yn fwy heini, datblygu sgiliau newydd, cynllunio, hyfforddi a chwblhau alldaith ac, ar gyfer y Wobr Aur yn unig, gweithio gyda thîm ar weithgaredd preswyl.

Dywedwch wrth y dysgwyr ein bod yn mynd i edrych ar yr adran alldaith i’w helpu i ddatblygu eu halldaith eu hunain. Rhaid i’r alldaith fod o’r hyd cywir a chwrdd â’r isafswm oriau o weithgaredd a gynllunnir.

- Efydd: O leiaf 2 ddiwrnod, 1 noson; 6 awr o weithgaredd wedi’i gynllunio bob dydd.
- Arian: O leiaf 3 diwrnod, 2 noson; 7 awr o weithgaredd wedi’i gynllunio bob dydd.
- Aur: O leiaf 4 diwrnod, 3 noson; 8 awr o weithgaredd wedi’i gynllunio bob dydd.

Rhaid i bob alldaith gael ei goruchwylio gan oedolyn (Goruchwyliwr yr Alldaith), sy’n abl i dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch y tîm. Tynnwch sylw’r dysgwyr at y ffaith bod yn rhaid i gyfranogwyr gael eu hyfforddi’n ddigonol i gwblhau alldaith yn ddiogel yn yr amgylchedd y byddant yn gweithredu ynddo.

## Sgrîn 5

Mae Gwobr Dug Caeredin yn rhoi awgrymiadau ar gyfer y math o alldeithiau y gellid eu gwneud. Gwahoddwch y dysgwyr i fynd i'r wefan (Saesneg yn unig) a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa syniadau ar gyfer alldeithiau sydd o ddiddordeb i chi? Pam?
- Pa alldeithiau y gellid eu gwneud yn eich ardal leol?

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr fod pob grŵp nawr yn mynd i ddatblygu alldaith ar gyfer diwrnod allan o'r ysgol yn yr awyr agored. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o alldaith ydych chi am ei datblygu? Pam?
- Sut ydych chi'n mynd i arwain pobl ar eich alldaith? Pa fathau o gliwiau neu gefnogaeth y byddwch yn eu darparu iddynt?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r map i leoli lle bydd eu halldaith yn digwydd. Edrychwch ar 'map mwy' i weld graddfa'r map. Yna, anogwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth fydd hyd yr alldaith?
- Pa mor hir fydd hi'n ei gymryd i rywun wneud yr alldaith?
- Sut dir sydd yno? Sut gallai hyn fod yn anodd i rai pobl?
- Pa hyfforddiant fydd ei angen ar bobl i wneud yr alldaith? Pam?

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Gwobr Dug Caeredin hefyd yn rhoi canllawiau ar restrau offer. Gwahoddwch nhw i fynd i'r wefan a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw eich barn am y rhestr offer?
- A oes unrhyw beth yn eich synnu am y rhestr offer? Pam?
- Pa fathau o offer y gallai fod eu hangen ar bob person sy'n cymryd rhan yn eich alldaith?
- Sut gallai eich rhestr offer ddibynnu ar y tywydd?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod wedi edrych yn gynharach ar y sgiliau a'r rhinweddau sydd ar fforwyr eu hangen, yn ogystal â'r rhai a gyflawnodd eu cwrs cyfeiriannu. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa sgiliau y gallai fod eu hangen ar y rhai sy'n cymryd rhan yn eich alldaith? Pam?
- Pa rinweddau y gallai fod eu hangen ar y rhai sy'n cymryd rhan? Pam?
- Sut gallai'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ddibynnu ar y tywydd?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i ddatblygu eu halldaith. Atgoffwch nhw i gynnwys y manylion canlynol ynghylch yr alldaith:

- lle bydd yn digwydd
- beth ydyw
- pa mor hir ydyw
- faint o amser y bydd yn ei gymryd i rywun gwblhau'r alldaith
- unrhyw gyfarpar y bydd ei angen ar y rhai sy'n cymryd rhan
- y sgiliau a'r rhinweddau y bydd eu hangen ar y rhai sy'n cymryd rhan
- yr hyfforddiant y bydd angen ei ddarparu cyn yr alldaith, ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan
- sut y gallai rhai agweddau ar yr alldaith newid, yn dibynnu ar y tywydd.

## Sgrîn 11

Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi edrych ar yr hyfforddiant sydd ei angen i ddringo Everest, yn gynharach yn y gweithgaredd. Y gwahanol fathau o hyfforddiant oedd cardiofasgwlaidd, cryfder a dygnwch, uchder, heicio mewn rhew ac eira, a dygnwch meddwl.

Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiwn canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fathau o hyfforddiant fydd angen i'r rhai sy'n cymryd rhan eu gwneud cyn yr alldaith? Pam?

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr ddatblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn yr alldaith, gan cwblhau'r tabl i ddangos eu syniadau.

## Sgrîn 13

Gofynnwch i'r dysgwyr roi cynnig ar eu rhaglen hyfforddi dros gyfnod o wythnos. Wedi iddyn nhw wneud hynny, gallant drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- I ba raddau wnaeth y rhaglen weithio? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa fanteision a roddodd y rhaglen i chi?
- Pa newidiadau allwn ni eu gwneud i'r rhaglen hyfforddi, er mwyn ei gwella? Sut byddai'r newidiadau hyn yn gwella'r deilliannau?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgriniau 14-15

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod nhw am fynd allan i'r awyr agored i roi cynnig ar eu halldaith. Pan fyddant wedi rhoi cynnig arni ac wedi gwneud unrhyw welliannau, byddant yn gwneud fideo am yr alldaith. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dystiolaeth neu wybodaeth sydd angen i ni eu casglu?
- Sut gallai gwahanol fathau o wybodaeth gael eu defnyddio mewn cyflwyniad fideo?

Atgoffwch y dysgwyr y bydd angen iddyn nhw sicrhau bod ganddynt ddulliau o gofnodi tystiolaeth a gwybodaeth, pan y byddan nhw allan yn yr awyr agored.

## Sgrîn 16

Wedi i chi ddychwelyd i'r ysgol, gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu halldaith trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth weithiodd yn dda ar ein halldaith? Pam?
- Beth na weithiodd cystal ar ein halldaith? Pam?
- Sut gallwn ni newid ein halldaith fel ei bod yn gweithio'n well?

Yna, gallai'r dysgwyr addasu eu halldaith er mwyn ei gwella.

## Sgriniau 17-18

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i gyflwyno eu halldaith yn ddigidol, ar ffurf fideo byr (2 funud ar y mwyaf). Dywedwch wrthyn nhw mai eu cynulleidfa fydd pobl sy'n ymwneud â Gwobrau Dug Caeredin, grwpiau cerdded/heicio lleol a grwpiau lleol eraill sy'n defnyddio'r awyr agored. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut y byddwch chi'n datblygu fideo am eich alldaith?
- Beth fydd pob unigolyn yn eich grŵp yn ei wneud? Pam?
- Pa wybodaeth bwysig sydd angen i chi ei chynnwys? Pam?
- Pa bethau gweledol fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?
- Pa bethau sy'n cynnwys sain fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?
- Sut y byddwch chi'n sicrhau mai dim ond 2 funud yw hyd eich fideo?

Yna, gwahoddwch y dysgwyr i wneud eu cyflwyniadau a'u cyflwyno.

## Sgrîn 19

Ar y sgrin hon, ceir triongl myfyrio er mwyn i ddysgwyr ei ddefnyddio i ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt i ddatblygu eu halldaith. Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio: yn unigol, mewn grwpiau, ar-lein, gwaith pâr. Yna, dylent ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt o'r rhestr ganlynol: darllen, ymchwilio, tynnu llun, myfyrio ar waith blaenorol, dosbarthu, trafod, creu prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallant hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.